**Eitem Agenda 2** **Tachwedd 2010** **WNC 32.10**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYMRU TACHWEDD 2010**

**YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD**

**Cynaeafu a Marchnata** – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

1. Rwyf yn falch o adrodd ein bod yn gweithredu yn ôl ein proffil gyda chyfeintiau cymeradwy lefelau incwm ein cynlluniau busnes. Mae cyfanswm y cyfaint hyd at ddiwedd mis Hydref yn cyfateb i 464 $km^3$ yn erbyn cyfaint y cynllun busnes o 790 $km^3$. Yn nhermau cyfaint rydym felkly'n gweithio yn ôl y proffil.

2. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld alldro terfynol o 770 $km^3$ gan briodoli'r diffyg o ran cyfaint i leihad mewn teneuo oherwydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio ar gyfer ymdrin â'r haint *Phytophthora* yn ne Cymru. Rydym ar y trywydd cywir ar gyfer cwblhau ein rhaglen llwyrdorri.

3. Rydym wedi cwblhau'r pedwerydd o'r chwe gwerthiant ar y farchnad agored, ac mae'r rhan fwyaf o'r lleiniau mwy'n gwerthu, ond mae'r lleiniau llai, llai atyniadol wedi dod yn fwy anodd eu gwerthu heb negydu. Mae'r galw wedi arafu yn ystod yr wythnosau diweddar, ac mae'r rhan fwyaf o felinau llifio a'r cyrff masnachu wedi adrodd ar anesmwythder ac ansicrwydd cynyddol tan o leiaf gwanwyn 2011. Fel ymateb i hyn byddwn yn cadw cysylltiad agos gyda'n cwsmeriaid ac rydym wedi cytuno i barhau gyda chwe phrif ddigwyddiad gwerthu. Bydd hyn yn galluogi cwsmeriaid i olrhain y farchnad yn agosach a rhoi mwy o hyblygrwydd a'r cyfle i brynu deunyddiau. Yn ystod 2008 gwnaethom ffurfio grŵp gyda'r maes masnach er mwyn ystyried mesurau i leihau effaith y dirwasgiad economaidd ar y pryd; nid ydym ar hyn o bryd yn credu y bydd angen gwneud hyn eto ond mae'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried os bydd y farchnad yn dirywio ymhellach.

**Coetiroedd Gwell i Gymru** - *Rhaglen 1:Rheoli coetiroedd mwy amrywiol.*

4. Mae ceisiadau newydd ar gyfer Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) wedi cynyddu wedi'r cyhoeddiad y bydd y cynllun yn dod i ben. Ers mis Awst 2010 cafodd 430 ychwanegol o geisiadau newydd eu prosesu, gan arwain at oedi o ran mapio ceisiadau presennol. Bydd fy staff Grantiau a Rheoliadau yn clirio'r ôl-groniad ar ôl 17 Tachwedd pan na chaiff ceisiadau newydd eu derbyn bellach. Mae rhagolygon yn dangos y caiff cyllideb grantiau CGG ei defnyddio'n llawn ar gyfer 2011/12, ond byddwn yn dechrau dangos arbedion o ran arian o tua £150,000 o gymorth CGG a chostau datblygu System Ar-lein Grantiau a Thrwyddedau (GLOS).

5. Mae'r Tîm Grantiau a Rheoliadau wedi rhoi trefniadau pontio ar waith, sy'n cynnwys dyddiadau cau ar gyfer gwahanol gamau proses cynllun rheoli CGG er mwyn sicrhau cymeradwyo ceisiadau un cyfle yn unig erbyn 31 Rhagfyr. Mae hyn

yn cynnwys adolygiadau ac ail-flaenoriaethu gwaith achos CCC er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni ein dyddiadau cau. Mae'r tîm yn darparu cyngor a diweddariadau cyson i'r Cynllunwyr Rheoli i'w helpu i gyflawni'r dyddiadau cau hyn. Fel rhan o broses pontio CGG, cytunwyd ar gyfle i aildrefnu gweithrediadau o fewn cynlluniau cymeradwy y cytunwyd arnynt yn ystod 2011/12 er mwyn rhoi i berchnogion ac asiantau gyfle olaf i aildrefnu gwaith nad yw'n mynd yn ei flaen yn ystod y flwyddyn hawlio y cytunwyd arni.

**Prosiect Creu Coetiroedd Glastir** – *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

6. Lansiwyd cynllun Creu Coetiroedd Glastir ar 21 Hydref 2010 ar fferm yn Sir Benfro, ac aeth llawer o aelodau o'r sectorau coedwigaeth a ffermio iddo. Plannodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig fedwen wlanog y tu allan i'r ffermdy cyn mynd ar daith o gwmpas y fferm i edrych ar ddetholiad o goetiroedd ar wahanol gamau eu tyfiant. Ers y lansiad bu dros 30 o ymholiadau newydd gan dirfeddianwyr sydd â diddordeb mewn creu coetiroedd.

**Rheoli Coetiroedd Glastir** - *Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

7. O 1 Ionawr 2013, caiff grantiau i brynu buddiannau cyhoeddus o'r coetir eu dosbarthu drwy Glastir, a chaiff y sector coetiroedd ei drin fel rhanddeiliaid Glastir. Mae'r Tîm Grantiau a Rheoliadau wedi dechrau ar waith ar gyfer cynllunio a gweithredu rheoli coetiroedd drwy Glastir, gyda'r nod o gyflawni buddiannau yn y meysydd polisi cyhoeddus sy'n gysylltiedig â chanlyniadau *Coetiroedd i Gymru*.

**FUTUREforest** – *Rhaglen 1:Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

8. Mae prosiect FUTUREforest, sy'n ymdrin ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar goedwigaeth ledled Ewrop, ar fin mynd i mewn i'r trydydd cam, sef y cam terfynol. Nodwyd hyn gan gynhadledd fawr yng Nghaerdydd ar 18 a 19 Tachwedd. Cychwynnwyd yr adroddiad drafft olaf a dangoswyd cyfres o ganllawiau arfer da a fu'n ganlyniad cydweithio rhyngrhanbarthol rhwng y rhanbarthau partner yn ystod cam dau. Bydd yr ail gam, o'r enw 'Trosglwyddo i Bolisi,' yn cynnwys trosglwyddo offerynnau polisi rhwng y rhanbarthau, awdurdodau cyhoeddus yr UE a rhanddeiliaid allweddol, a chyhoeddi'r adroddiad terfynol. Bydd y gynhadledd gau yn digwydd ym Mrwsel ddiwedd gwanwyn 2011.

**Plannwch!** – *Rhaglen 1:Rheoli coetiroedd mwy amrywiol*

9. Cafodd y safle Plannwch! arfaethedig ym Mharc Caia, Wrecsam gymeradwyaeth gan y Cyngor Sir ddechrau mis Tachwedd, a chaiff ei blannu yn ystod y tymor plannu hwn os caiff tendrau eu trefnu. Bydd CCC yn gweithio gyda Chyngor Wrecsam ac yn darparu tua £100,000 er mwyn sefydlu'r safle dros bum mlynedd, a fydd yn cynnwys tua 7,000 o goed. Yn dilyn proses ymgynghori bydd ymglymiad cryf gan y gymuned. Bydd ysgolion lleol a grwpiau ieuenctid yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, plannu coed a gofal ar ôl hynny.

**Phytophthora ramorum** - *Rhaglen 2: Amddiffyn ac iechyd coed*

10. Mae'r Tîm Rheoli Cychwyniadau traws-Comisiwn Coedwigaeth wedi parhau i ddatblygu cyfeiriad strategol cyson i reoli *Phytophthora ramorum*, o gofio bod dealltwriaeth wyddonol a gweithredol sy'n newid yn gyflym iawn o'r afiechyd. Mae Uned Cynaeafu a Marchnata Comisiwn Coedwigaeth Cymru (WHaM) yn gweithio'n agos gyda Menter Coedwigoedd Lloegr ac mae wedi sefydlu grŵp marchnata i ganolbwyntio'n benodol ar y cychwyniad. Mae CCC wedi dysgu gwersi gan gydweithwyr sy'n cymryd rhan mewn ymdrin ag afiechydon yn ne orllewin Lloegr. Mae cydweithwyr yn Iechyd Planhigion Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr yn gweithio'n agos gyda'r sectorau prosesu a chludiad yng Nghymru i sicrhau y dosberthir trwyddedau priodol ac yr eir i'r afael â materion bioddiogelwch. Mae CCC wedi briffio asiantaethau eraill megis Parciau Cenedlaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am ledaenu'r afiechyd, ac am y rheolaethau sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

11. Ni chafodd rhagor o gellïoedd llarwydd Siapaneaidd wedi'u heintio eu hadnabod ar Ystad Coetir Llywodraeth y Cynulliad (AGWE) y tu hwnt i Gwm Afan Isaf, a chymoedd Creunant a Garw yn ne Cymru. Bellach mae'r arolwg yn cael ei leihau ar ôl colli nodwyddau, ac mae'r strategaeth reoli'n canolbwyntio ar sicrhau na chaiff pren y llarwydd ei farchnata'n ddiarwybod fel deunydd heb ei heintio. Ni chaiff unrhyw drwyddedau ar gyfer torri llarwydd eu dosbarthu i'r sector preifat tan wanwyn 2011 er mwyn caniatáu i goed sydd wedi'u heintio gael eu hadnabod ar ôl iddynt gael eu holl nodwyddau yn y gwanwyn, ac felly atal lledaenu'r afiechyd yn anfwriadol.

12. Mae'r cellïoedd sydd wedi'u heintio nawr dros 800 hectar o larwydd, sy'n arwain at 90 $km^3$ o bren wedi'i heintio. Mae'r strategaeth yn aros fel un torri a gwerthu 40% erbyn mis Mawrth 2011, a chaiff y 60% sy'n weddill eu torri er mwyn cael eu marchnata yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf (Ebrill 2011 - Mawrth 2012). Mae'r rhaglen dorri'n mynd yn dda ac mae safleoedd heintiedig yn dod yn weithredol yn wythnosol. Mae WHaM yn hyderus y caiff pob ardal a nodwyd ei thorri a byddant yn cydymffurfio â'r gorchymyn iechyd planhigion erbyn mis Mawrth 2011.

13. Cwblhawyd torri tua 60 o goed yng Nghanolfan Ymwelwyr Bwlch Nant-yr-Arian ym mis Medi.

**Strategaeth Ceirw** - *Rhaglen 2: Amddiffyn ac iechyd coed*

14. Ysgrifennwyd y strategaeth a'r cynllun gweithredu drafft, a chafodd y rhanddeiliaid gyfle i wneud sylwadau. Croesawyd y strategaeth a chafwyd dim ond awgrymiadau a sylwadau bach ar gyflawni'r cynllun gweithredol. Gwneir yr adolygiadau terfynol a chaiff y strategaeth ei chyflwyno i'n Gweinidog ym mis Rhagfyr, a'i lansio yn 2011.

**Rhaglen Ynni Gwynt** - *Rhaglen 3:Ynni adneewyddadwy*

15. Bellach mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) wedi tynnu yn ôl yn ffurfiol ar eu Gwrthwynebiad Cynllunio i Brosiect Pen-y-Cymoedd (SSA-F). Mae CCC wedi chwarae rôl sylweddol o ran hwyluso'r lliniariad a'r trafodaethau rhwng deiliad y dewis ac CCGC. Nod Deiliad y Dewis yw cyflwyno Cais Cynllunio i'r ddau awdurdod lleol cyn diwedd mis Ionawr 2011.

16. Daethpwyd i ben yn llwyddiannus â thrafodaethau ar y cwantwm sy'n gysylltiedig â chais Deiliad y Dewis Prosiect Nant y Moch (SSA-D) am fynediad ychwanegol yng Nghanolfan Ymwelwyr Nant-yr-Arian. Bellach mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar Benawdau'r Telerau i sicrhau'r dulliau diogelu angenrheidiol sy'n lleihau effeithiau ar Ganolfan yr Ymwelwyr sy'n bwysig i isadeiledd economaidd yr adran. Mae CCC yn gweithio'n agos gyda Deiliad y Dewis mewn perthynas â chyhoeddi'r mater sensitif hwn a'r sylw bydd hyn yn ei ddenu pan fydd Deiliad y Dewis yn dechrau cam ymgynghori cyhoeddus llawn ei Gais Cynllunio i'r Comisiwn Cynllunio Isadeiledd (IPC) ddiwedd mis Tachwedd.

17. Mae gweithgaredd ledled y Rhaglen yn parhau i fynd rhagddo ac mae Deiliaid Dewis yn benderfynol o gyflwyno eu Ceisiadau Cynllunio cyn i gorff arall gymryd lle'r IPC. Ar hyn o bryd mae CCC yn terfynu ei safbwynt ar geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer SSA-G: Brechfa a SSA-A: Cloceanog. Mae SSA-B: Dyfnant ar ei hôl hi ychydig ond mae'n glir y bydd Deiliad y Dewis yn benderfynol o adennill tir a bydd gweithgaredd sylweddol ar y prosiect hwn dros y pedwar mis nesaf.

18. Mae Tîm Rhaglen Ynni Gwynt CCC wedi cytuno mewn egwyddor i weithio gyda Dŵr Cymru, ein landlord yn Llyn Brenig, er mwyn datblygu fferm wynt 50 Megawat a mwy. Rydym wedi dangos y gallu yr ydym wedi ei ddatblygu dros y pum prosiect SSA arall ac mae Dŵr Cymru eisiau manteisio ar yr arbenigedd hwn. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddrafftio cytundeb am y gwasanaethau y bydd CCC yn eu darparu cyn i ni fynd i mewn i drafodaethau ynglŷn â natur y berthynas ein cyrff priodol a rhannu enillion sylweddol posibl o'r datblygiad hwn. Bydd rhaid ystyried y berthynas o ran y cyfyngiadau a roddir ar Dŵr Cymru gan eu siarter.

**Cynllun Busnes Ynni Pren (WEBS)** - *Rhaglen 3: Ynni adnewyddadwy*

19. Mae 32 o geisiadau grant cymeradwy, a'u gwerth cyfunol yw £640,000. Mae naw prosiect arall y mae'r tîm wedi derbyn ffurflenni cais llawn ar eu cyfer ac mae'n ymgymryd ag asesiadau a gwiriadau. Mae tîm WEBS wedi argymell i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i gynnal berwedyddion biomas 6 megawat mewn melin lifio yng nghanolbarth Cymru. Byddai hyn yn brosiect blaenllaw rhagorol; fodd bynnag, mae caniatâd WEFO yn ofynnol oherwydd nid yw'r cwmni'n Fusnes Bach neu Ganolig (BBaCh). Mae'r tîm yn parhau i weithio gydag ymgeiswyr ar

gyfer rhai o'r cynlluniau mwy ond nid oes un wedi cyrraedd cam digonol ar gyfer ei gymeradwyo hyd yn hyn.

**Pethau Adnewyddadwy ar Raddfa fach** - *Rhaglen 3: Ynni adnewyddadwy*

20. Cydweithiodd CCC gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn paratoi papur ar y cyd ar bethau adnewyddadwy ar raddfa fach, i'w defnyddio fel sail i drafodaeth rhwng uwch staff y tri sefydliad, Cyfarwyddwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Gweinidogion ar 8 Tachwedd 2010, er mwyn ystyried y rhwystrau rhag cyflwyno pethau adnewyddadwy ar raddfa fach yn gyfylymach yng Nghymru. Prif bryder y Gweinidogion yn y cyfarfod oedd rhwystrau rheoleiddiol, yn enwedig mewn perthynas ag ynni dŵr. Mewn perthynas â hwyluso a chyflwyno (sy'n fwy cymwys i CCC), mae'r Gweinidogion yn dymuno gweld mwy o gyfleoedd ar gyfer cymunedau ac ar gyfer menter gymdeithasol. Maent wedi gofyn i CCC hwyluso lefel weithgarwch wedi'i chyflymu ar Ystad Coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig cyn i'r lefelau cymhelliant uchel ar presennol, sef 'Tariffau Bwydo i Mewn' gael eu hadolygu yn 2012. Bydd CCC hefyd yn cyfarfod ag Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i drafod yr astudiaeth ddichonolrwydd a gynhaliwyd gan Forest Renewables ar ran CCC ar y potensial ar gyfer ynni gwynt ar raddfa gymunedol.

## COETIROEDD AR GYFER POBL

**Cynllun Coetiroedd Rhanbarthol Blaenau'r Cymoedd** – *Rhaglen 4: Ymglymiad a menter y cyhoedd*

21. Bu fy Swyddog Prosiect Blaenau'r Cymoedd (BC) yn gweithio gyda phartneriaeth Ardal Adfywio Strategol BC dros y flwyddyn ddiwethaf, ar ddatblygu Cynllun Coetiroedd Strategol. Datblygwyd offeryn targedu gofodol a chronfa ddata gydag ymglymiad agos gan ystod o bartneriaid statudol a phartneriaid y trydydd sector. Nodwyd coetiroedd a safleoedd ar gyfer plannu newydd sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer darparu buddiannau lluosog (economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol) fel blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi. Bellach cafodd y Cynllun ei fabwysiadu fel dogfen strategol gan Fwrdd a Grŵp Llywio Blaenau'r Cymoedd, a'r holl sefydliadau partner.

22. Mae ymgynghori ar fodelau cyflwyno'r Cynllun posibl ar y gweill erbyn hyn, ac mae pob partner yn cytuno y bydd yn hanfodol mynd ati i gydlynu a hwyluso. Mae Partneriaeth BC yn cefnogi'n gryf ddatblygu cadwyn gyflenwi ar gyfer tanwydd pren fel elfen gynnar o gyflwyno'r Cynllun ac fel cyfrannwr allweddol i Barth Carbon Isel Blaenau'r Cymoedd. Eir ati i symud hyn ymlaen - mae coetiroedd sydd wedi'u rheoli'n dda, ac sy'n gynhyrchiol, yn hanfodol i nodau'r Cynllun, ynghyd â chreu swyddi a chyfleoedd ar gyfer mentrau, ac adnoddau wedi'u cynhyrchu i blannu ac i gadw coetiroedd newydd.

**Cynllun Coetiroedd y Cymoedd Gorllewinol** – *Rhaglen 4: Ymglymiad a menter y cyhoedd*

23. Mae gwaith ar gynllun rhanbarthol ar gyfer yr Ardal Adfywio Strategol hon bellach wedi dechrau a chaiff Grŵp Ymgynghori ei sefydlu. Cafodd cyllid Parc Rhanbarthol y Cymoedd (Cydgyfeirio) ei sicrhau er mwyn cynnal Swyddog Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a fydd yn cydlynu datblygiad y cynllun a gweithio ehangach mewn partneriaeth yn y rhanbarth dros y ddwy flynedd nesaf.

**Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf** – *Rhaglen 4: Ymglymiad a menter y cyhoedd*

24. Bu fy Nhîm Polisi Coetiroedd i Gymru'n gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf yng ngogledd a de Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad posibl y gall coed a choetiroedd ei wneud i raglenni adfywio. Mae'r gwaith hwn yn cynnal agenda 'Plygu Rhaglenni' LlCC – yn annog adrannau LlCC ac asiantaethau/ darparwyr gwasanaethau eraill i dargedi eu polisïau a'u rhaglenni at ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

**Tai Fforddiadwy** - *Rhaglen 4:Ymglymiad a menter y cyhoedd*

25. Mae prosiect Tŷ Unnos yn Nolwyddelan yng ngogledd Cymru yn agos at ei gwblhau, a bydd ganddo denantiaid yno erbyn mis Rhagfyr 2010.

**Cynhadledd Flynyddol Coetiroedd ar gyfer Dysgu** – *Rhaglen 6:Sgiliau dysgu a sgiliau sector sy'n seiliedig ar goetiroedd*

26. Ymgasglodd arbenigwyr addysg o ledled Cymru yng Nghaerdydd ym mis Hydref am gynhadledd flynyddol y Tîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu. Er mwyn dathlu deng mlynedd o'r Ysgol Goedwig yng Nghymru, trefnodd y tîm ddigwyddiad deuddydd yn cyfuno cyflwyniadau, gweithdai a siaradwyr sy'n cynrychioli'r deng mlynedd

diwethaf gyda ffyrdd arloesol o sut gallai'r Ysgol Goedwig ddatblygu yn ystod y deng mlynedd nesaf. Lansiwyd ymchwil o'r rhaglen flwyddyn gyntaf a gynhaliwyd gan CCC yn y gynhadledd. Bydd Adroddiad llawn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol ar gael cyn bo hir.

**LANTRA** – *Rhaglen 6: Sgiliau dysgu a sgiliau sector sy'n seiliedig ar goetiroedd*

27. Wrth weithio tuag at gyflwyno Gweithred 5 (Ystyried, datblygu a mireinio ein hymagwedd at ddatblygu sgiliau a gyrfaoedd ar gyfer y sector, cefnogi datblygu sgiliau a strwythurau cynorthwyo staff newydd) cwrddodd fy Nhîm Polisïau Coetiroedd ar gyfer Pobl â LANTRA, y cyngor sgiliau sector ar gyfer coed a phren, er mwyn trafod ein hymglymiad gyda lleoliadau profiad gwaith, Bagloriaeth Cymru, Llwybrau 14-19, Gyrfaoedd Cymru, gweithlu'r contractwyr a chynlluniau Prentisiaethau Modern. Cynhaliwyd trafodaeth ddefnyddiol iawn a chroesewir cymorth LANTRA wrth gyflwyno ein Rhaglenni Corfforaethol.

## DATBLYGU SECTOR GOEDWIGAETH GYSTADLEUOL AC INTEGREDIG

**Partneriaeth Busnes Coedwig Cymru** – *Rhaglen 8: Hyrwyddo pren a datblygu sector y goedwig*

28. Mae Partneriaeth Busnes Coedwigoedd Cymru (WFBP) yn cyflwyno'n raddol gyfres o ddigwyddiadau â'r nod o hyrwyddo pren, i ymateb i ddarganfyddiadau eu gweithdai 'Pontio'r Bwlch'. Mae'r digwyddiadau'n cynnwys Gosod Cladin Pren a Dylunio gyda Phren. Mae'r Bartneriaeth yn cefnogi prosiectau Canolfan Ragoriaeth Eryri yn uniongyrchol. Cwrddodd â'r penseiri i'w cynghori ar ddatblygiadau diweddar o ran Adeiladu Pren Cymru, a sefydlodd digwyddiadau 'Cwrdd â'r Penseiri' ar gyfer cyflenwyr posibl. Cafodd Canolbwynt Coedwigaeth Cymru ei sefydlu yn Swyddfeydd WFBP ym Machynlleth, gan ddarparu cyfleusterau swyddfa ar gyfer ystod eang o grwpiau cymunedol yn yr ardal, a gynhelir gan CCC, yn ogystal â chyfleusterau rhagorsaf ar gyfer staff CCC.

## GWELLA ANSAWDD AMGYLCHEDDOL

**Cynllun Rheoli Niwbwrch** – *Rhaglen 10: Bioamrywiaeth, treftadaeth a thirwedd wedi'u lleoli ar y safle*

29. Gwnaed cynnydd yn Niwbwrch tuag at roi cynllun rheoli cymeradwy ar waith ac ailgydio yng ngweithredoedd teneuo wedi cyfnod o bum mlynedd o leiaf. Mae'r cynllun rheoli'n cynnwys cynlluniau torri sy'n debyg i'r Cynllun Cynllunio Coedwigoedd na allai gael ei gymeradwyo yn 2009. Mae'r ardal dorri yn y cyfnod cyntaf yn cynrychioli llai na 5% o ardal y goedwig, ond ni chaiff hyn ei roi ar waith

tan i'r adolygiad gwyddonol ddod i'r casgliad y byddai hyn yn briodol. Mae ardal deneuo yn cael ei marchnata gyda'r nod o'r teneuo'n digwydd dros y gaeaf. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys tan-blannu ardal a fydd yn ffurfio ffin fwy gwydn ar gyfer y goedwig yn y tymor hwy. Gwnaed adolygiad o'r wyddoniaeth ond erbyn hyn mae wedi mynd i gael ei gyflafareddu oherwydd bod materion sy'n cael eu dadlau gan randdeiliaid lleol a chan Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae CCC yn gweithredu fel arsyllwr ar yr adolygiad ac ni fydd y cyflafareddu cyfredol yn rhwystro gallu CCC i ailgydio mewn rheoli'r goedwig.

**MESURAU BUSNES**

**Strategaeth Sgiliau Dwyieithog** – *Mesur Busnes 5: Cymhwysedd yn yr Iaith Gymraeg*

30. Erbyn hyn cafodd y strategaeth sgiliau dwyieithog ei chymeradwyo gan Fwrdd Rheoli CCC. Cafodd asesiad effaith ar gydraddoldeb ei gwblhau ynghyd â chynllun cyfathrebu cynhwysfawr a gynlluniwyd i sicrhau ymgysylltu effeithiol â staff. Cafodd pob swydd o fewn CCC eu mapio i bennu'r lefel ofynnol o ran gallu yn yr iaith Gymraeg. Mae'r strategaeth yn dangos amrywiaeth o ymyriadau ac atebion er mwyn mynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau a gwella galluedd y sefydliad o ran siarad Cymraeg.

**Staff yn Hunanddatgan Anabledd** – *Mesur Busnes 2: Amrywiaeth staff*

31. Mae canran y staff sy'n datgan anabledd wedi lleihau ers i nifer o staff adael y sefydliad yn ystod y chwarter diwethaf. Ni fu unrhyw recriwtio allanol er mwyn darparu unrhyw bosibilrwydd o newid y sefyllfa hon. Bydd Adnoddau Dynol CCC yn gweithio gyda thîm Cydraddodeb ac Amrywiaeth y Comisiwn Coedwigaeth er mwyn darganfod rhwystrau posibl, ynghyd ag atebion a gweithrediadau, i annog staff i hunanddatgan anabledd.

**Y Broses Adleoli**

32. Cafodd proses adleoli Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr ei rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r heriau o ran cynnal a lleoli staff dros ben ledled y sefydliad. Ceir tîm pwrpasol yng Ngwasanaethau Adnoddau Dynol a Rennir, yng Nghaeredin sy'n cynnal Adnoddau Dynol a rheolwyr yn y gwledydd o ran hwyluso pob agwedd ar y broses adleoli. Pwyntiau allweddol i'w nodi yw: caiff y cymal symudedd ei roi ar waith ar gyfer graddfeydd Band Cyflog 5 neu'n uwch; bydd swydd wag gymeradwy yn aros fel cyfle i adleoli tan y dyddiad cau; bydd Adnoddau Dynol CCC yn rhoi unigolion ym mhwll Prydain Fawr dim ond pan fydd yr holl brosesau i roi unigolion yn ochrol yn CCC wedi'u harchwilio'n llawn.

**Trefor Owen**
**Cyfarwyddwr CCC**
**Tachwedd 2010**